Cyngor Cymdeithas Cynwyd

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth, 1af o Dachwedd, 2016 yn y Neuadd Bentref am 7:30 yr hwyr.

Presennol

Ifan Williams, Emrys Bodden, Cefyn Williams, John Evans, Llion Jones, Aelwyn Guest.

Hefyd Martin Lines a Delyth Thomas, aelodau o'r cyhoedd yng Nghynwyd

Ymddiheuriadau

Gwen Wynne, Nan Jones, Ann Owen

Oherwydd absenoldeb y cadeirydd cymerwyd y gadair gan ys is-cadeirydd Llion Jones.

Cyn ymdrin a materion y Cyngor, dymunwyd gwellhad buan i'r trigolion sy'n dioddef o anhwylder iechyd. Mae nifer yn y cylch yn cwyno. Cydymdeimlwyd a'r rhai sydd yn galaru.

Digwyddiadau'r pentref

- Rali yn mynd trwy'r pentref
- Cyfarfod Cymdeithas Menter Cymunedol Cymru yn y Prince ar y 15fed o Dachwedd

Cofnodion y Cyngor

Darllenwyd y Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4 Hydref 2016, a chafwyd yn gywir. Hefyd, derbyniwyd agendas Sir Ddinbych.

Materion yn codi o'r cofnodion

Y tir gyferbyn a Ty Hers. Adroddiad gan y clerc fod y tir ddim wedi ei gofrestru. Penderefynwyd cael cyfarfod ar y safle,ar y dydd Llun canlynol. Ifan Williams i'w drefnu.

Materion Ariannol

Ar ol trafod y mater, rhoddwyd codiad i'r clerc am y tro cyntaf y ganrif hon.

Cynllunio

Dim cynllunio ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ac UFA

- Golueuni llachar - gofyn i'r cwmni insiwrans (AON) am amcan gyfrif.
- Sul y Cofio am 1:30y.p. 13/11/2016. Gwnaethpwyd y trefniadau Coeden Nadolig y pentref i'w goleuo am 6:00 o'r gloch ar y 6 Rhagfyr. Y trefniadau yn nwylo Ann Tynant, Gwen Wynne a Rich Murphy
- Siaradodd Cefyn Williams am ddatblygiadau yng Nghysgod y Gaer.

Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 6ed o Ragfyr, 2016